| | |
|---|---|
| | **EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD**<br>**YNYS MÔN 2026** |
| | **Cystadleuaeth 142 – Grŵp Llefaru Bl.10 a dan 19 oed** |
| | **Myn Duw, mi wn y daw, Dafydd Iwan** |

Mae gwaed y rhai fu'n brwydro ac a lifodd ar y gwellt
Ers talwm wedi'i olchi gan y glaw;
Ni chlywaf gan y daran, ni welaf gan y mellt,
Nid oes ond cri anobaith ar bob llaw.
Ymhle y mae Owain yn awr?
Ymhle y mae Owain yn awr?

Mae Owain, gyda'i filwyr, wedi cilio draw o'n gwlad,
Ac nid oes mwy ond atgof ar ei ôl.
Nid oes ond oer gelanedd lle gynt bu maes y gad,
Ac nid yw rhyddid mwy ond breuddwyd ffôl.

Owain ni ddaw yn ôl, Owain ni ddaw yn ôl.
Daw llanw wedi'r trai, daw enfys wedi'r glaw,
Ac wedi'r nos mi wn y wawr a ddaw:
O! Mi wn y daw Owain yn ôl!
O! Mi wn y daw Owain yn ôl!
Fel llanw wedi'r trai, fel enfys wedi'r glaw,
Fel gwawrio wedi'r nos,
Myn Duw, mi a wn y daw! Myn Duw, mi a wn y daw!

Ymrestrwn yn ei rengoedd, a'r iaith Gymraeg yn arf,
Ni ddioddefwn warth caethiwed awr yn hwy;
Gorseddwn iaith ein tadau, dilëwn olion brad,
Dangoswn nad taeogion monom mwy!

Rhown heibio bob anobaith, a'r holl amheuon lu,
Mae Owain eto'n barod am y dydd;
O'i loches yn Eryri fe ddaw â'i ffyddlon lu
I'n harwain gyda'r wawr i'r Gymru rydd.
Myn Duw, mi a wn y daw!
Myn Duw, mi a wn y daw!
Myn Duw, mi a wn y daw!

*Dafydd Iwan © Cyhoeddiadau Sain*